Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa, a gynhaliwyd ddydd lau 2il Mehefin 2011 am 3yh yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian (Canolfan Dysgu a Datblygu, Wylfa)

Yn Bresennol:

A M Jones (Cadeirydd)	Cyngor Sir Ynys Môn – Llaneilian
N Gore	Cyfarwyddwr Safle, Wylfa
K White	Magnox Ltd
L Jones	Magnox Ltd
T Roberts	Magnox Ltd
M Thornton	Magnox Ltd
C Loveday	Horizon
L Flexman	Horizon
D Ellis	Horizon
A Smith	Horizon
K Anderson	Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
R Dutton	Rheolwr Rhaglen Datgomisiynu Magnox Cyf
Y Cynghorydd T Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Mechell
Y Cynghorydd J V Owen	Cyngor Sir Ynys Môn – Parc a'r Mynydd
Y Cynghorydd W T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Llanbadrig
Y Cynghorydd K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Llanfaethlu
Y Cynghorydd G W Roberts OBE	Cyngor Sir Ynys Môn – Amlwch Wledig
Y Cynghorydd B Owen	Cyngor Sir Ynys Môn – Arweinydd
G Roberts	Cyngor Cymuned Mechell
J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
E Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
V Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Y Rhingyll H Townsend	Yr Heddlu Niwclear Sifil
T Conway	Cymdeithas Ymddeoledigion Wylfa
A Hall	Dŵr Cymru
J Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
S Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru

Hefyd yn Bresennol:

H M Hughes	Partneriaeth Adfywio Amlwch (Ysgrifennydd Cofnodion)
Cymen	Cyfieithu ar y Pryd

1 GAIR O GROESO A DERBYN YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2673 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Roedd A M Jones yn dymuno estyn croeso cynnes i'r Cynghorydd Bryan Owen, Arweinydd newydd Cyngor Sir Ynys Môn, a oedd yn Ddeiliad y Portffolio Economaidd cyn hynny ac a fu hefyd yn datblygu'r cysyniad o Ynys Ynni. Estynnodd A M Jones groeso i Kelly Anderson hefyd, sef Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA).

2674 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dr L Davies (Y Swyddfa Rheoleiddwyr Niwclear (ONR) – yr Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear yn flaenorol); Dr J I Jones (Magnox Ltd); J Milburn (Magnox Ltd); B Williams (Magnox Ltd); L Jones (Cyngor Sir Ynys Môn – Ynys Ynni); M Wymer (Bodorgan Estates Ltd); M Boyce

(Uned Pysgodfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru); P Kennedy (Yr Asiantaeth Safonau Bwyd); Cdr Alexander (Cymdeithas Tir a Busnesau Gwledig); H Dean (Yr Heddlu Niwclear Sifil); J C Jones (NFU); R Parry Jones (Cyngor Sir Ynys Môn – Prif Weithredwr Dros Dro); T Poole (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig); T Hughes (Cyngor Cymuned Llanbadrig); Y Cynghorydd D Jones (Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Porth Amlwch) H Williams, FUW.

2 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 10fed MAWRTH 2011

2675 Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod 10fed Mawrth 2011 yn gywir gan J H Jones, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd J V Owen.

3 MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL

2676 Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion blaenorol.

4 ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

2677 Eglurodd A M Jones y drefn ar gyfer pleidleisio, a pha gynrychiolwyr o blith y grŵp rhanddeiliaid oedd yn cael pleidleisio:

Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref

- Cyngor Cymuned Llanbadrig – 2 bleidlais
- Cyngor Cymuned Mechell – 2 bleidlais
- Cyngor Cymuned Cylch y Garn – 2 bleidlais
- Cyngor Tref Amlwch – 1 bleidlais

Cynghorau Sir Ynys Môn – Aelodau Lleol

- Amlwch Wledig – 1 bleidlais
- Llanbadrig – 1 bleidlais
- Mechell – 1 bleidlais
- Llanfaethlu – 1 bleidlais

Cyngor Sir Ynys Môn

- Y Cynghorydd J V Owen
- Y Cynghorydd R D Jones
- Y Cynghorydd A M Jones

Cynrychiolwyr Undeb Llafur Wylfa o Gyd-gyngor y Safle

- T Roberts
- C Williams

2678 Cododd y rhai a oedd yn cael pleidleisio eu dwylo er mwyn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd:

Cadeirydd – Ail-etholwyd y Cynghorydd A M Jones yn Gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf
Is-gadeirydd – Etholwyd y Cynghorydd G W Roberts OBE yn Is-gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf.

2679 Diolchodd y Cynghorydd A M Jones i J H Jones am ei waith caled yn ystod ei gyfnod fel Is-gadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa, a chroesawodd y Cynghorydd G W Roberts OBE fel yr Is-gadeirydd newydd. Diolchodd J H Jones i'r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Is-gadeirydd. Diolchodd y Cynghorydd G W Roberts OBE i'r aelodau am eu cefnogaeth, a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda Chadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.

2680 Dywedodd N Gore fod perthynas waith dda gydag A M Jones a J H Jones, a'i fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cynghorydd A M Jones a'r Cynghorydd G W Roberts OBE yn y dyfodol.

5 DERBYN ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR SAFLE

2681 Dosbarthwyd copi o Adroddiad y Cyfarwyddwr Safle cyn y cyfarfod. Soniodd N Gore yn gyffredinol am yr adroddiad.

2682 Dywedodd N Gore fod Wylfa wedi ennill Gwobr y Llywydd am gael 10 Gwobr Aur yn Olynol yng Ngwobrau Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol RoSPA 2011, yn ogystal â sgôr 5 seren gan Gyngor

Diogelwch Prydain. Roedd yn falch bod gorsaf bŵer Wylfa wedi cael cydnabyddiaeth gan ddau gorff annibynnol allanol am ei harferion diogelwch.

2683 O ran paragraff 4 yn Adroddiad y Cyfarwyddwr Safle, o dan 'Y Prif bethau a Gyflawnwyd', oherwydd yr ystyr gyfreithiol, dywedodd N Gore mai '*derbyniwyd e-bost'* ddylai fod wedi cael ei ddefnyddio yn hytrach na'r gair *'hysbysiad'*.

2684 Mae Magnox South a Magnox North wedi ailuno'n un cwmni o'r enw Magnox Ltd.

2685 Rhoddodd N Gore yr wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiadau yn Japan – mae'r Almaen wedi cau 7 o'i safleoedd niwclear. Yn sgil y digwyddiad hwn, mae cwestiynau wedi cael eu gofyn ynglŷn â Wylfa. Dywedodd fod Japan wedi'i lleoli ar blât tectonig, a dyna pam yr oedd y daeargryn wedi cael effaith mor drychinebus yn y fan honno. Fodd bynnag, yn ddaearegol, pe bai daeargryn neu Tswnami yn digwydd, byddai'r effaith wedi diflannu cyn cyrraedd Wylfa. Ychwanegodd hefyd fod adeilad Wylfa wedi'i gynllunio i wrthsefyll yr hyn sy'n dderbyniol a mwy o safbwynt diogelwch.

Roedd Bwrdd Magnox wedi ymweld â'r safle'n ddiweddar i edrych ar yr elfennau diogelwch sylfaenol (y systemau diogelwch wrth gefn), ac roeddent yn hapus iawn gyda'r canlyniadau. Penderfynodd y bwrdd y byddai gorsafoedd pŵer Wylfa ac Oldbury yn parhau i weithredu yn ôl eu harfer.

2686 Dywedodd hefyd, yn dilyn yr adroddiad interim ar y daeargryn – 'Japanese earthquake and Tsunami: Implications for the UK Nuclear Industry' – a gyhoeddwyd gan Dr. Mike Weightman, Prif Arolygydd Niwclear, Cymdeithas Gweithredwyr Niwclear y Byd, fod nifer o gwestiynau wedi dod i law a bod gan Wylfa amserlen ar gyfer ymateb. Eglurodd fod gorsaf Wylfa wedi cael ei thrydedd set o gwestiynau a bod pethau'n mynd yn dda iawn hyd yn hyn.

Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer Cyfnod Segur Adweithydd 1. Yn dilyn ambell lithriad a chwymp ar y safle ddechrau'r flwyddyn, mae rhannau o'r safle wedi cael eu harchwilio ac mae gwelliannau wedi cael eu gwneud.

Gan nad oedd Generadur Disel ar gael, roedd Rheol Gweithredu wedi cael ei thorri, ac roedd ymchwiliad wedi cael ei gynnal.

2687 Diolchodd A M Jones i N Gore am yr adroddiad, a dymunodd yn dda iddo ef a staff Wylfa am roi'r achos diogelwch at ei gilydd ar gyfer ymestyn y cyfnod cynhyrchu y tu hwnt i fis Rhagfyr 2012.

2688 Roedd T Conway yn bryderus nad oedd adroddiad gwreiddiol Weightman yn crybwyll bod y plât tectonig agosaf yng Ngwlad yr Iâ – nid yr Azores – a bod yr Adran Astudiaethau ym Mhrifysgol Llundain wedi ymchwilio i'r nam yn Le palma, a fyddai'n effeithio ar Wylfa ac ar Fôr Hafren pe ceid Tswnami. Eglurodd N Gore fod sefyllfa Wylfa yn glir, a bod achosion diogelwch ar waith ar gyfer digwyddiadau seismig.

2689 Holodd T Conway a ellid cyfeirio'r mater hwn yn ôl at M Weightman. Eglurodd N Gore y byddai'r sylwadau'n cael eu bwydo'n ôl i Dr L Davies, ONR.

2690 Dywedodd y Cynghorydd K Hughes ei fod yn dawel ei feddwl y byddai Wylfa yn gallu ymdopi â digwyddiad seismig pe bai yn un digwydd. Holodd a fyddai Wylfa yn gallu ymdopi pe bai rhywbeth yn syrthio o'r awyr. Eglurodd N Gore na allai ddatgelu llawer o fanylion am resymau diogelwch; fodd bynnag, roedd achos diogelwch ar waith i ddelio ag effaith o'r awyr, megis ymosodiad terfysgol.

2691 Nododd J H Jones fod adroddiad Weightman yn ddiddorol iawn gan ei fod yn sôn am y digwyddiadau sydd fwyaf tebygol o ddigwydd, er enghraifft, y digwyddiad ym mis Rhagfyr pan gollwyd cyflenwad dŵr yn yr orsaf; a chadernid seilweithiau, e.e. peilon yn syrthio. Mynegodd ei siom nad oedd neb o ONR yn y cyfarfod gan fod rhai pwyntiau yn haeddu cael eu trafod mewn mwy o fanylder.

2692 Eglurodd A M Jones y bydd adroddiad terfynol Weightman yn cael ei gyhoeddi fis Medi, felly gellir trafod yr adroddiad yng nghyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid Safle ym mis Rhagfyr. Ychwanegodd, yn dilyn ymweliad diweddar â'r safle, ei bod yn gwbl amlwg bod diogelwch ffisegol wedi gwella yn Wylfa.

2693 Dywedodd N Gore fod J H Jones wedi codi pwyntiau dilys gan fod adroddiad Weightman yn ymdrin â chyfuniad o ddigwyddiadau. Eglurodd y gallai baratoi cyflwyniad ynghylch materion diogelwch a chamau gweithredu penodol Wylfa, pe bai'r aelodau'n cytuno i hynny. Ymatebodd A M Jones a'r aelodau y byddai cyflwyniad yn fuddiol, a bydd hyn yn cael ei drefnu ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 8fed Medi 2011.

2694 Gofynnodd y Cynghorydd T Jones ai'r ffaith nad oedd y Generadur Disel yn gweithio a arweiniodd at dorri'r Rheol Gweithredu, ynteu a oedd rheswm arall pam nad oedd ar gael. Eglurodd N Gore y ceir tri Generadur Disel yn Wylfa, ac mae'n rhaid i ddau o'r rheini fod ar gael bob amser. Ceir cyfnod 72 awr pan fydd modd i un o'r rhain fod yn segur, ond mae'n rhaid i ni ddatgan wedyn bod yr Adweithydd mewn Sefyllfa o Gynnal a Chadw Brys (RUMS) os bydd y gwaith yn mynd y tu hwnt i 72 awr. Bryd hynny, rhaid diffodd y ddau Adweithydd. Bu'r generadur dan sylw yn segur am 8 awr, ond ni wnaethom ddatgan ein bod mewn sefyllfa RUMS.

2695 Aeth N Gore yn ei flaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am Gynllun Oes Wylfa. Roedd Wylfa i fod i gau ym mis Rhagfyr 2010, ac roedd achos wedi cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan yr ONR (yr Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear yn flaenorol) i barhau i gynhyrchu hyd at fis Rhagfyr 2012. Eglurodd mai'r ffaith bod angen hyd at dair blynedd ar Sellafield i ailbrosesu'r tanwydd – byddai hyn wedyn yn mynd â chyfnod gwagio tanwydd Wylfa i 2015 – oedd wrth wraidd y dyddiad hwn (Rhagfyr 2012). Gan fod Sellafield wedi wynebu oedi wrth ailbrosesu'r tanwydd a bod gan Wylfa Achos Diogelwch dilys hyd at fis Medi 2014, ceir cyfle i ymestyn y cyfnod cynhyrchu i 2014. Eglurodd N Gore nad oedd digon o danwydd newydd i fynd â Wylfa ymlaen i fis Medi 2014. Rhagdybir y bydd Wylfa yn parhau, a'r bwriad yw diffodd Adweithydd 2 ym mis Mawrth / Ebrill 2012 a defnyddio cyfuniad o'r tanwydd heb ei ddefnyddio yn Adweithydd 2, a defnyddio'r tanwydd newydd yn Adweithydd 1. Un fantais i hyn yw y bydd cyflogaeth lawn yn parhau hyd at fis Medi 2014. Mae hyn hefyd yn golygu y bydd y bwlch rhwng Wylfa a'r adeilad niwclear newydd sy'n bosib yn llai na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Eglurodd N Gore nad yw'r cynllun hwn wedi cael caniatâd gan y rheoleiddwyr, ond gobeithio y gellir rhoi achos at ei gilydd i barhau i gynhyrchu am gyfnod hwy.

6 DERBYN ADRODDIAD CADEIRYDD Y GRŴP RHANDDEILIAID SAFLE

2696 Dosbarthwyd copi o adroddiad y Cadeirydd cyn y cyfarfod. Soniodd A M Jones yn gyffredinol am y cyfarfodydd yr oedd wedi eu mynychu ar ran y grŵp. Eglurodd hefyd fod lobïo ar ran cymuned Ynys Môn yn rhan o'i swyddogaeth fel Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle. Dywedodd fod yr orsaf wedi bod o fudd i'r Ynys, a gobeithio y byddai sgiliau gwaith Wylfa yn cael eu trosglwyddo'n llwyddiannus i'r adeilad niwclear newydd.

2697 Nid oedd dim cwestiynau ynghylch adroddiad y Cadeirydd.

7 DIWEDDARIAD YR AWDURDOD DATGOMISIYNU NIWCLEAR (NDA)

2698 Anfonwyd copi o adroddiad misol yr NDA cyn y cyfarfod.

2699 Eglurodd K Anderson fod Strategaeth yr NDA a Chynllun Busnes diweddaraf yr NDA wedi cael eu cyhoeddi.

2700 Rhoddodd K Anderson y manylion diweddaraf am y model cyflawni economaidd-gymdeithasol:

- Mae cyllideb 2011/12 yr NDA ar gyfer sgiliau / datblygu'r gadwyn gyflenwi / cymorth economaidd-gymdeithasol yn £21 miliwn.
- Bydd yr NDA yn cadw cyllideb ganolog er mwyn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau economaidd-gymdeithasol gweddnewidiol a strategol. Fodd bynnag, bydd yr NDA yn rhoi mwy a

mwy o bwyslais ar ddal eu contractwyr Cwmni Trwydded Safle yn atebol am ddarparu cymorth economaidd-gymdeithasol.

- Ar hyn o bryd, mae Magnox Ltd yn cynnal asesiad o effaith economaidd-gymdeithasol ei raglen waith ar draws 10 safle Magnox (dylai'r adroddiad effaith fod ar gael ddiwedd Mehefin). Bydd hyn yn sail i gynllun datblygu economaidd-gymdeithasol ddiwedd Medi, a fydd yn nodi blaenoriaethau'r Cwmni Trwydded Safle ar gyfer cymorth ar draws y 10 safle.
- Yn amodol ar ddarparu cynllun derbyniol, bydd yr NDA yn rhoi nawdd economaidd-gymdeithasol ychwanegol i Magnox o gyllideb ganolog yr NDA er mwyn caniatáu i Magnox chwarae mwy o rôl wrth ddarparu cymorth economaidd-gymdeithasol.
- Yn y dyfodol, bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno i Magnox yn y lle cyntaf; bydd prosiectau gweddnewidiol mwy sy'n diwallu meini prawf cyllido'r NDA yn cael eu cyflwyno gan Magnox i'r NDA i'w hystyried.
- Mae'r Pwyllgor a'r Panel Economaidd-gymdeithasol wedi cael eu diddymu. Bydd ceisiadau nawr yn cael eu cymeradwyo gan Jon Phillips (hyd at £500k) neu gan Tony Fountain a'r Llywodraeth (dros £500k). Mae'r NDA wrthi'n cynnal trafodaethau gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ynghylch dileu'r angen i fynd at y Llywodraeth er mwyn cael cymeradwyaeth.
- Mae'r NDA yn credu y bydd hyn yn sicrhau gwelliannau sylweddol a phroses gymeradwyo fwy effeithiol, er enghraifft, drwy leihau biwrocratiaeth. Ni fydd y datblygiadau hyn yn effeithio llawer iawn ar Bolisi Economaidd-gymdeithasol yr NDA.

2701 Eglurodd K Anderson fod yr NDA wedi adolygu eu Cynllun Ymgysylltu Cenedlaethol ym mis Mawrth 2010, ac ar ôl 5 mlynedd; roedd angen iddynt ystyried a oedd y trefniadau ar gyfer gweithio gyda rhanddeiliaid yn dal yn "addas at y diben" ai peidio. Yn dilyn yr adolygiad, newidiodd yr NDA y modd yr oeddent yn mynd ati i gynllunio ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r ddarpariaeth ar gyfer hynny. Er hwylustod, mae'r Cynllun Ymgysylltu Cenedlaethol wedi cael ei rannu'n wahanol adrannau, a'r rheini'n adlewyrchu'r themâu strategol a ddefnyddir yn nogfen strategaeth yr NDA ac ar y wefan. Mae'r digwyddiadau allweddol nawr ar ffurf lluniau yn hytrach na geiriau, a byddant yn cael eu hadolygu'n fisol.

2702 Eglurodd K Anderson y byddai'n anfon dolen y Cynllun Ymgysylltu Cenedlaethol at K White, a phe bai gan unrhyw un unrhyw gwestiynau, y byddai'n fodlon eu derbyn dros e-bost gan y byddai'r NDA yn croesawu sylwadau gan y cyhoedd.

2703 Holodd y Cynghorydd T Jones pa waith ymchwil sy'n cael ei gynnal yng nghyfleuster Dalton Cumbria, a sut byddai'r lleoliad hwn yn cael budd o'r cyfleuster. Eglurodd K Anderson mai ar gyfer prosiectau gweddnewidiol yr oedd y cyfleuster. Ychwanegodd A M Jones ei fod yn credu bod Dr J I Jones yn edrych ar y cyfleuster hwn fel rhan o'r prosiect Ynys Ynni. Holodd y Cynghorydd T Jones tybed fyddai modd iddo gael dolen at y cyfleuster hwn. Bydd K Anderson yn darparu hyn drwy'r ysgrifennydd.

8 DIWEDDARIAD Y SWYDDFA RHEOLEIDDIO NIWCLEAR

2704 Eglurodd A M Jones na allai Dr L Davies fod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau teuluol, a'i fod yn anfon ei ymddiheuriadau. Pe bai unrhyw gwestiynau'n codi, eglurodd A M Jones y byddai'n fodlon eu hanfon ymlaen at Dr L Davies.

9 DIWEDDARIAD GAN IS-GRŴP ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL WYLFA

2705 Eglurodd A M Jones nad oedd y grŵp wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle, gan nad oedd ceisiadau newydd am gyllid economaidd-gymdeithasol wedi dod i law.

10 DIWEDDARIAD GAN IS-GRŴP GWASTRAFF WYLFA

2706 Estynnodd A M Jones groeso i R Dutton ac M Thornton.

2707 Eglurodd M Thornton fod y grŵp wedi cyfarfod ar 17eg Mai 2011. Dyma'r prif bwyntiau a drafodwyd:

2708 Roedd newidiadau sefydliadol yn y Grŵp Rheoli Cymorth Gweithrediadau a Gwastraff ar ôl uno Magnox North a Magnox South yn Magnox Ltd, a bod pawb yn y Grŵp Rheoli Cymorth Gweithrediadau a Gwastraff wedi cael eu hailbenodi i'w swyddi presennol a bod popeth yn ei le ar gyfer symud ymlaen.

2709 Strategaeth Datgomisiynu'r Safle – rhoddodd Richard Dutton, Rheolwr Rhaglen Datgomisiynu Wylfa, yr wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Is-grŵp Gwastraff am y gwaith sy'n cael ei wneud ar gyfer Datgomisiynu – gofynnwyd i hyn gael ei drosglwyddo i aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle (bydd Mr Dutton yn briffio aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle yn syth ar ôl yr eitem hon ar yr agenda)

2710 Diweddariad ynghylch nodweddu – bydd aelodau'r Is-grŵp Gwastraff yn rhan o Astudiaeth Creu Opsiynau Strategol ar gyfer Gwastraff Olewog yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

2711 Cafwyd diweddariad am dorri'r amodau yng nghyswllt allyriadau'r llosgydd gwastraff, ac am yr ymchwiliadau a oedd ar y gweill i bennu'r achos. Eglurodd M Thornton nad oedd unrhyw awgrym beth oedd y rheswm dros y digwyddiad; dywedodd fod gwaith ar y gweill i wella'r protocol dadansoddi ar gyfer deunyddiau.

2712 Dywedwyd wrth aelodau'r Is-grŵp Gwastraff fod Strategaeth yr NDA nawr ar gael ar wefan yr NDA.

2713 Holodd T Conway beth oedd y metel trwm, ac ymatebodd M Thornton mai Plwm a Mercwri ydoedd.

2714 Holodd Alan Smith o Horizon Nuclear Power pa newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud i ddogfen Strategaeth NDA rhwng y fersiwn ddrafft a'r fersiwn derfynol. Eglurodd M Thornton fod fformat y ddogfen wedi newid rhywfaint, ond nad oedd newidiadau mawr yn y cynnwys. Ychwanegodd K Anderson fod sylwadau'r arolwg a rhestr o'r newidiadau ar gael ar wefan yr NDA.

2715 Cyflwynodd R Dutton ei hun fel Rheolwr Rhaglen Datgomisiynu Wylfa, a rhoddodd grynodeb i aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle ynghylch y gwaith a oedd wedi'i wneud yn y gorffennol i baratoi ar gyfer datgomisiynu.

2716 Roedd llinell sylfaen dechnegol ar gyfer datgomisiynu eisoes ar waith ac wedi cael ei chynnwys yn y cynllun oes, a oedd wedi'i adolygu'n ddiweddar ar ôl y cyhoeddiad ynghylch ymestyn y cyfnod cynhyrchu i fis Rhagfyr 2012. Er bod elfen o hyblygrwydd yn y cynllun, roedd yn awr yn ystyried sut dylid ategu'r cynllun oes pe bai'r cyfnod cynhyrchu'n cael ei ymestyn hyd at fis Medi 2014.

2717 Roedd y cynllun busnes blaenorol yn dangos cynnydd graddol ym mhob rhan o fflyd Magnox, o edrych arnynt yn gyffredinol. Mae'r cynllun busnes newydd bellach yn adlewyrchu dull 'wedi'i fireinio' sy'n rhoi pwyslais ar ddefnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon, a chynllun gwell a fydd yn fuddiol iawn wrth leihau'r costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â datgomisiynu. Edrychir ar Magnox fel fflyd gyfan, a dyna fyddai'r ffordd orau o weithredu a datgomisiynu ar yr un pryd.

2718 Yn ystod y 12 mis nesaf, dywedodd Richard y bydd yn datblygu'r ddwy ddogfen ganlynol ar gyfer Magnox:

- Dogfen Strategaeth Datgomisiynu a fydd yn edrych ar ddau faes, sef Cyflymu'r Broses Ddatgomisiynu a Gofal a Chynnal a Chadw Interim
- Dogfen Ddiffinio Pwynt Mynediad Gofal a Chynnal a Chadw

Diolchodd A M Jones i Richard Dutton am ei ddiweddariad – nid oedd gan yr aelodau gwestiynau

11 SESIWN HOLI AC ATEB FFORWM AGORED

2719 Ni ofynnwyd dim cwestiynau.

12 UNRHYW FATER ARALL

2720 Nid oedd materion eraill i'w trafod.

13 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

2721 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8fed Medi 2011.

2722 Diolchodd A M Jones i bawb am ddod i'r cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben am 4yh.

HMH 0611